
# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

## Mehefin 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 9

## Logo'r Urdd

Mae'n siŵr ei bod chi wedi gweld y triongl ar ochr Penycloddiau uwchben y pentre ac yn meddwl tybed sut y cyrhaeddodd yno. Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein herthygl ar dudalen 3.




Diolch i Martin Fraser am y llun hwn o'r awyr



Bryan a Cledwyn Jones yn cael seibiant i ddarllen y *Llais* yng nghanol eu gwaith



Llun o Eglwys Wen, Dinbych



Sian Eirian, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod gyda'i gŵr, Garfield Lloyd Lewis; Bryan Jones, cyd-ddylunydd a chrëwr y logo, a Bryn Davies

# Pytiau newyddion y pentre

Llongyfarchiadau i Jac Evans, Sgubor Efa, ar basio'i brawf gyrru.
Dymuniadau da i Eryl Whelan yn ei gartref newydd yn Nant Glyd.
Croeso cynnes i John McPhaden ac Emma Parry Jones sydd wedi dod i fyw i Tŷ Newydd.
Llongyfarchiadau i Bryn Williams ar fod yn Llywydd y Dydd yn Eisteddfod yr Urdd.

## Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 5 Mehefin | 9.45 | Oedfa'r fro |
| 12 Mehefin | 11.00 | Trefniant lleol |
| 19 Mehefin | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 26 Mehefin | 9.45 | Llinos Mary Jones |

## Neuadd y Pentre

| | |
|---|---|
| 8 Mehefin | Cyfarfod pwyllgor y sioe, 7pm |
| 8 Mehefin | Pwyllgor Cynghrair Pêl-droed yr Haf (yr oriel) 7pm |
| 12 Mehefin | Llan Llanast, 3.30–5pm |
| 13 Mehefin | Brownies, 5.30–7pm |
| 13 Mehefin | Cyfarfod blynyddol Pwyllgor y Neuadd, 7pm |
| 18 Mehefin | Bore coffi dan nawdd Capel Dyffryn 10am |
| 20 Mehefin | Brownies, 5.30–7pm |
| 27 Mehefin | Brownies, 5.30–7pm |

***I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.***

## Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| 6 Mehefin | Trefoil Guild, 2pm |
| 14 Mehefin | Clwb Llyfrau 10am |
| 21 Mehefin | Cyngor Cymuned, 7pm |
| 28 Mehefin | Clwb Llyfrau 10am |
| 28 Mehefin | Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |

I logi'r Ystafelloedd Coco, cysylltwch ag Emily Williams, emilylloyd1@tiscali.co.uk.

Dymuniadau da i Gwilym Evans, Glenydd gan obeithio'ch bod chi'n teimlo'n well.
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Wally Humphreys (Wally Taxi) a fu farw ddiwedd mis Mai. Bu'r angladd ddydd Mawrth, 31 Mai.

**Diolch**
Roedd ymateb y pentref ar ôl marwolaeth Gwyn yn gwneud i mi deimlo'n falch iawn. Roedd yr holl gardiau, blodau, cyfraniadau a dymuniadau da a gefais yn anhygoel. Roedden nhw'n gysur iawn i'r teulu a mi ar adeg trist ac anodd. Diolch o galon.

*Carolyn Langford Jones*

LLAN Llanast

Yng nghyfarfod mis Mai fe dddysgon ni am y Samariad Trugarog a sut mae'r Iesu am i bawb ohonom ni fod mor gymwynasgar a charedig a â phosib. Gwnaethon ni gyfresi o sticeri i'n hatgoffa bod Duw gyda ni bob amser, map o'r Wlad Sanctaidd adeg Iesu Grist, storïau car ffurf cylch, ffigyrau coesau matshys a phosau. (Roedd un o'r posau yn gwneud i'r oedolion grafu pen hefyd!!). Gwnaethon ni fwrdd stori enfawr, yn dangos yr holl gymeriadau yn y stori. Roedd yn braf cael croesawu dau deulu newydd atom, a gobeithiwn y byddan nhw'n dod i'r cyfarfod nesa hefyd ar Fehefin 12fed.

*Mary Steel*



# Creu logo'r Urdd ar ochr bryn

Gan fy mod yn chwilfrydig fy natur, fe es i fyny i Ben y Cloddiau un prynhawn dydd Sul ddechrau mis Mai i weld beth oedd yn digwydd. Dyma fy ffrind Bryan yn fy nghyfarch. Roedd yntau, ynghyd â'i ffrind, Cledwyn, wedi cael y dasg ar rybudd byr iawn i osod logo mawr yr Urdd ar ochr y bryn – yn ddigon mawr i'w weld o faes yr Eisteddfod, ac, yn bwysicach, i godi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod.

Mae'n siŵr eich bod chi'n gwybod bod triongl gwyn, coch a gwyrdd yr Urdd yn symbol o ymrwymiad aelodau'r Urdd i Grist, cyd-ddyn a Chymru – er nad oes rhaid cadw at yr ymrwymiad i Grist y dyddiau hyn. Ond rhaid cofio i hwn gael ei fabwysiadu 100 mlynedd yn ôl.

Dylwn i fod wedi aros gartref yn eu gwylio o gysur fy nghadair esmwyth. Cyn gynted ag y gwnes i gyrraedd Pen y Cloddiau, roedd Bryan wedi gosod tasg i mi – mae'n haws o lawer gyda thri, dywedodd wrthyf, ac a wnawn i ddod yn ôl yfory? Dylwn ychwanegu yma fod Bryan a Cled ill dau wedi ymddeol yn ddiweddar fel penaethiaid dylunio technoleg, felly mae ganddyn nhw ddawn naturiol at ddatrys problemau, ac, yn bwysicach, yn fodlon gweithio'n galed!

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, roedd Cled yn Ninbych yn tywys Bryan trwy lens chwyddo a ffôn symudol o ffenestr ei ystafell wely – i ti, i mi, chwedl y Chuckle Brothers – y cyfan yn dechnolegol iawn! Y dasg i mi oedd bod ar fy ngliniau yn sicrhau bod y rholyn cyntaf o ddefnydd gwyn yn syth o'r top i'r gwaelod – 180 metr.

Ar ôl cyrraedd gwaelod y triongl, y dasg nesaf oedd rholio'r ymylon yn dynn a chropian yn ôl i fyny ar fy nwylo a'fy mhengliniau, gan daro pegiau metel 150mm i'r ddaear bob 900mm. Roeddwn i'n meddwl eu bod yn cael hwyl ar fy mhen! Felly 1,500 o begiau yn ddiweddarach – dim ond ychydig ohonyn nhw wedi'i daro i mewn gennyf i – roedd darn cyntaf logo'r Urdd yn sownd yn ei lle.

Beth bynnag, deg rholyn yn ddiweddarach, roedd y rhan wen yn gyfan. Wedyn roedd rhaid casglu'r 150 palet o Fron Gelyn gyda thractor a threlar a cheisio gweithio allan sut i'w gosod allan i edrych fel 2022. Unwaith eto roedd eu gosod yn dibynnu ar edrych arnyn nhw o bell drwy finociwlars – ond a bod yn deg, roedd Bryan a'i fab Rhydian wedi dechrau ar y dasg hon y diwrnod cynt.

Fe gawson ni ymweliad gan Gyfarwyddwr yr Urdd ac roedd ein gwaith wedi gwneud argraff fawr arni. Roedd ei gŵr gyda hi a digwyddodd yntau sôn fod ganddo ddiwrnod sbâr yr wythnos honno ac os oedd angen gwneud unrhyw beth byddai'n hapus i helpu. Wel, 'unrhyw beth' oedd ei union eiriau, wedi'r cyfan. Efallai nad oedd wedi ystyried peintio 150 o balets gyda phaent coch ar ochr mynydd mewn gwynt mawr – ond, chwarae teg iddo, fe wnaeth hynny!

Gyda llaw, diflasodd Twm (ci defaid Bryan) ddydd Sul a llwyddodd i agor bocs o Jaffa Cakes a bag o greision – a wnaethon nhw ddim para'n hir! Roeddwn i'n edrych ymlaen yn fawr at y Jaffa Cakes – doeddwn i ddim yn sylweddoli bod siom yn emosiwn mor gryf!

Dywedais wrth Anwen yn gellweirus, wrth edrych ar y logo drwy ffenest ein llofft, does dim llawer o bobl yn gallu dweud eu bod wedi cropian hanner ffordd i fyny Pen y Cloddiau ar eu dwylo a'u pengliniau. A fyddwn i'n gwneud hyn eto? Byddwn, wrth gwrs. Pam? Yn syml oherwydd 'mod i'n gallu.

Fe gawson ni lawer o hwyl a digon o awyr iach – profiad y byddaf yn ei gofio am amser hir. 'Pan ddaw'n amser i'w dynnu i lawr eto,' meddai Bryan, 'os byddwn yn ei rolio'n ofalus, bydd y cyflenwr yn ei gymryd yn ôl am bris gostyngol.' Roedd ychydig o eiriau dethol yn ateb i hynny ac rwy'n meddwl ei fod wedi cael y neges yn ddigon clir – mae pen draw i'r hyn y byddwn ni'n ei wneud i'r Urdd!

*Bryn Davies*


# Taith i Alabama gyda'r Urdd

Bron flwyddyn yn ôl mi ges i'r sioc fwyaf erioed. Ro'n i mewn stafell yn y Premier Inn yn Lerpwl ar y pryd. Yno yn mwynhau deuddydd o siopa efo ffrindiau. Roedd hi'n wsnos Steddfod yr Urdd. Ond nid steddfod gyffredin, Steddfod T. Ar Zoom cyhoeddodd Trystan fy mod i ac enillwyr eraill y gystadleuaeth Alaw Werin yn cael mynd i Alabama efo'r Urdd fel rhan o'r dathliadau canmlwyddiant. Roeddwn i wir mewn sioc ac wrth edrych yn ôl, yn chwerthin ar fy ymateb o anghrediniaeth yn fyw ar y teledu!

Dydd Iau Ebrill 12fed fe gyrhaeddodd y diwrnod tyngedfennol. Tan y funud ola roeddwn yn poeni na faswn yn gallu mynd oherwydd Covid. Roedd rhaid gwneud prawf ar-lein am hanner awr wedi un ar ddeg. Roeddwn mor nerfus! Beth os faswn i'n methu mynd 'rôl edrych ymlaen ers bron i flwyddyn? Daeth canlyniad negyddol diolch byth. Dal trên wedyn o'r Waun lawr i Gaerdydd. Cyrraedd gwersyll yr Urdd am bump a llenwi cant a mil o ffurflenni diogelwch. Ymarfer deg cân a chyfle i gymdeithasu. Roedd 25 ohonom ni bobl ifanc, aelodau o staff yr Urdd ac arweinydd y côr, Rich Vaughan a'i wraig. Swper a gwely cynnar er mwyn bod yn ffres y diwrnod canlynol. Ond wnes i ddim cysgu winc achos bod rhywun yn chwyrnu!

Dydd Gwener Ebrill 13eg. Codi am dri o'r gloch y bore. Dal bws i Heathrow. Brecwast mawr yn y maes awyr ac ar yr awyren am un ar ddeg. Dwi'n lwcus ac wedi arfer hedfan ond dwi erioed wedi gweld awyren mor fawr, heb sôn am deithio ar un. Roedd ambell un o'r criw 'rioed wedi hedfan o'r blaen a ddim yn gallu gwerthfawrogi crandrwydd a maint yr awyren. Roedd gan bawb deledu personol a sianel arbennig i allu mwynhau adenydd yr awyren a'r olygfa o'r awyr. Naw awr o daith ac mi a'th yn sydyn rhwng bwyta, cysgu a gwylio ffilmiau. Cyrraedd Atlanta, prif ddinas talaith Georgia ac wedyn bws i Birmingham Alabama. Allan i swper a chael y byrger neisia erioed. Rhaid i mi bwysleisio bod bwyd a chanu wrth gwrs, yn rhan bwysig iawn o'r daith!!

Dydd Sadwrn Ebrill 14eg. Diwrnod prysur a llawn iawn. Ymweld ag Amgueddfa'r Sefydliad Hawliau Sifil. Dysgu am hanes caethwasiaeth ac ymdrech y bobl dduon. Ymweld ag Eglwys y Bedyddwyr, 16th St, Birmingham. Dyma lle lladdwyd pedwar plentyn yn 1953 mewn ymosodiad hiliol. Aelodau o'r Ku Klux Klan oedd yn gyfrifol am blannu'r ffrwydradau. Cawsom weld y ffenest enwog gafodd ei chreu gan John Pretts, artist gwydr o Gymru. Penderfynodd Pretts ddylunio'r ffenestr yn portreadu Iesu Grist du fel rhodd o gefnogaeth i'r eglwys a'i phobl ar ôl yr ymosodiad. Gosodwyd y ffenestr yn yr eglwys yn 1954 ,a chaiff ei hadnabod fel y Wales Window. Cael mwynhau cyngerdd cerddorfa jazz y brifysgol gyda'r nos.




Dydd Llun cawsom gyfle i ymlacio yn y bore. Nofio yn y pwll nofio a mynd o gwmpas y brifysgol. Cael gwersi canu gospel yn y brifysgol a chael lot fawr o hwyl. Yn syml, gyda

# Taith i Alabama gyda'r Urdd: parhad

chanu gospel ma' rhywun yn cyfansoddi wrth fynd ymlaen. Lot fawr o ailadrodd. Roedd yr arweinydd yn pwyntio at wahanol rannau o'i gorff: er enghraifft, os oedd yn cyffwrdd top ei ben, roedden ni'n ailadrodd yr un llinell. Ar y dydd Sul mi wnes i weddïo deg gwaith ond oherwydd bod pob dim mewn rhythm gospel roedd yn bleserus a chyffrous.

Dydd Mawrth aethom yn ôl i Atlanta. Treulio'r diwrnod yn teithio a stopio yn Selma a Montgomery. Selma oedd y dre fach lle cychwynnodd Martin Luther King ei orymdaith i geisio cael yr hawl i bobl dduon gael pleidleisio. Cerddodd o Selma gyda channoedd o bobl i Montgomery – 54 milltir. Cerddom ni dros bont Edmund Pettus lle ymosododd byddin o blismyn ar y gorymdeithwyr a'u taro nhw yn greulon gyda phastynau. Gelwir y digwyddiad yn 'Bloody Tuesday'. Eironig ein bod ni wedi croesi'r bont ar ddydd Mawrth.



*Gwenan ar bont Edmund Pettus*

Yn Montgomery fe aethom i amgueddfa Rosa Parks a gweld lle roedd hi'n byw yn Pine Level. Fe wrthododd Rosa Parks ildio ei sedd ar y bws i deithiwr gwyn yn 1955. Arweiniodd hyn at Foicot Bysiau Montgomery, un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes y Mudiad Hawliau Sifil.

Dydd Mercher – y diwrnod pan gawsom gyfarfod ffrind agos Martin Luther King, Andrew Young. Mae Andrew Young wedi chwarae rhan allweddol yn yr hawliau sifil ac wedi ysgrifennu sawl llyfr. Fo helpodd i ysgrifennu a drafftio'r Ddeddf Hawliau Sifil yn 1964 a'r Ddeddf Hawl i Bleidleisio yn 1965. Arweiniodd yr ymdrech lwyddiannus at gael y Gemau Olympaidd i Atlanta yn 1996. Doeddwn i ddim yn sylweddoli ar y pryd ei fod yn ddyn mor bwysig a dylanwadol. Roedd wrth ochr ei ffrind a chyd-weithiwr, Martin Luther King, pan gafodd ei ladd ac fe anerchodd y dyrfa yn dilyn ei farwolaeth yn 1968. Erbyn hyn mae yn naw deg oed ac mewn cadair olwyn ond roedd ganddo amser i siarad â ni.

Dydd Iau – cyfle i ymlacio a chymdeithasu cyn y daith 'nol i Gymru. Taith arbennig iawn iawn ac mi ges i brofiadau anhygoel. Roeddwn i wedi mwynhau cyd-ganu efo'r côr gospel – profiad wna' i byth ei anghofio. Doeddwn i ddim eisiau mynd adra ac rwy'n benderfynol o gael mynd yn ôl i Alabama ryw ddiwrnod. Mawr yw fy niolch i'r Urdd ac rwyf yn edrych ymlaen at gael cystadlu yn yr Eisteddfod yn Nhregaron gyda'r côr unwaith eto.

*Gwenan Lloyd*



*Gwenan (ar y dde) a'i ffrindiau ar y daith, a Mr Urdd, wrth gwrs!*

# Dod i adnabod Jimmy McNally



**Beth yw dy atgofion cynharaf, Jimmy?**
Yr atgof cynharaf sydd gen i yw teithio o gwmpas Gogledd Cymru gyda fy nhad tra oedd yn rheoli ail dîm Llandyrnog Utd. Dim ond 4 neu 5 oed oeddwn i, ond dwi'n dal i gofio gwylio rhai o chwaraewyr pêl-droed gwych yr oes honno, yn gwneud eu gorau dros dîm y pentre. Atgofion hapus iawn.

**Pryd symudoch chi i Landyrnog?**
Symudon ni yma yn 1989 o Kirkinner, pentref bach yn yr Alban, ger tref Wigtown, yn Dumfries a Galloway. Symudwyd y gwaith pacio yn hufenfa Bladnoch i Landyrnog a daeth llawer ohonon ni i lawr. Mae ychydig ohonon ni yn dal i fod yn yr ardal.

**Rwyt ti'n gwneud gwaith rhagorol gyda'r ieuenctid a phêl-droed – pam mae hyn yn bwysig i ti?**
Yn bersonol, fyddwn i ddim yn dweud ei fod yn rhagorol, er fy mod yn gwerthfawrogi hynny yn cael ei ddweud amdana i. Pan oeddwn i'n 15/16 doedd neb yn rhedeg timau iau cynghrair yr haf, felly fe wnes i wirfoddoli, ac fe aeth o'r fan honno. Erbyn hyn, bron i 18 mlynedd yn ddiweddarach, rwy'n dal i i'w wneud. Mae'n bwysig i mi, yn bennaf oherwydd ei fod yn golygu cymaint i mi. Mae'r plant lleol wedi dod mewn niferoedd gwych ar hyd y blynyddoedd ac rydw i wedi dweud erioed, tra mae'r niferoedd yn parhau, y byddaf yn parhau i roi fy amser iddyn nhw. Rwy'n cael llawer o ganmoliaeth, ac er bod hyn yn beth braf iawn, rwy'n dal i feddwl y dylai'r ganmoliaeth fod i'r plant am ddod draw i chwarae pêl-droed, a rhoi rheswm i mi ddal ati. Hebddyn nhw, does dim pêl-droed plant. Fe allai rhywun arall gymryd fy lle i, ond does dim yn gallu cymryd lle eu hymdrechion nhw. Mae hefyd o fudd i gynghrair yr haf yn y tymor hir, sy'n beth pwysig iawn i Landyrnog.

**Petaet ti'n cael dy anfon i ynys anial, pa dair eitem fyddet ti'n mynd â nhw gyda ti a pham?**
Pêl droed, i 'nghadw i'n brysur.
Radio, i wrando ar gerddoriaeth ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau pêl-droed.
Irn Bru, oherwydd mae'n ddiod unigryw.

**Petaet ti'n cael un pŵer goruwchddynol, beth fyddai hwnnw?**
Byddwn wrth fy modd â'r gallu i deithio drwy amser. Allwn ni ddim byw am byth, ond byddai'r gallu i fynd i'r gorffennol i wylio rhai digwyddiadau hanesyddol, neu i deithio i'r dyfodol i weld yr hyn na fyddwn i byth yn byw i'w gweld, yn anhygoel.

**Pwy yw dy arwr a pham?**
Cwestiwn anodd. Wrth dyfu i fyny, fy arwr pêl-droed oedd Ally McCoist a'i goliau, a gwnaeth ei gymeriad cyfan wneud i mi garu pêl-droed. Yn lleol, fel y bachgen bach yna yn tyfu i fyny yn Llandyrnog, Alan Vaughan oedd fy arwr. Mae hynny'n swnio'n wirion, ond roeddwn i'n gefnogwr brwd Llandyrnog Utd, ac roeddwn i wrth fy modd yn gwylio Alan yn chwarae – doedd neb yn sgorio goliau fel fo. Oherwydd Alan, er fy mod yn cefnogi Rangers yn frwd, rydw i wedi dilyn Arsenal erioed. Petawn i wedi gallu bod yn ddigon da i chwarae, bod fel Ally McCoist byddai fy nymuniad petawn i'n chwarae i Rangers, neu fel Alan Vaughan, petawn i'n chwarae i Landyrnog Utd.

**Beth sy'n dy wneud di'n flin iawn?**
Hoffwn i feddwl dydw i ddim yn grac yn aml iawn, ond mae'n bosib y byddai hogiau'r clwb pêl-droed yn dweud yn wahanol. Rwy'n meddwl fy mod yn teimlo'n fwy siomedig na blin yn gyffredinol. Mae gweld Rangers yn colli yn sicr yn fy ngwylltio. Ac os ydw i'n teimlo

# Dod i adnabod Jimmy McNally: parhad

diffyg ymrwymiad ym myd pêl-droed dynion, mae hynny yn fy ngwylltio i, i ryw raddau.

**Beth sydd wedi codi fwyaf o embaras arnat ti erioed a pham?**
Rydw i'n cael fy atgoffa'n gyson o hyn – roeddwn yn arfer rhedeg o gwmpas fy ngardd pan oeddwn yn blentyn gyda phêl wrth fy nhraed, yn smalio fy mod yn chwarae mewn gêm enfawr ac yn sylwebu ar fy ngemau fy hun. Fe hoffwn i wadu'r peth, ond dwi'n cofio ei wneud. Felly does dim cuddio rhag y ffaith fy mod i'n arfer meddwl fy mod i'n Ally McCoist yn chwarae yn Ibrox, gan sylwebu fel Archie McPherson (sylwebydd pêl-droed o'r Alban). Mae hyn yn codi cywilydd arna i nawr...ond roeddwn i wrth fy modd – ha-ha!

# Gwobrau Clwb Pêl-droed Llandyrnog

Nos Sul, 15 Mai, cynhaliodd Llandyrnog Utd ei noson gyflwyno gwobrau, yng nghartref y tîm pêl-droed, y Golden Lion.
Enillwyr y gwobrau oedd:
Chwaraewr y cefnogwyr – Dylan Jones
Sgoriwr y nifer mwyaf o goliau – David Lawson Cooke
Person y clwb – Chris Pengelly
Chwaraewr Ifanc – Murray Hughes
Chwaraewr y rheolwr – Dylan Jones
Chwaraewr y chwaraewyr – David Lawson Cooke
Cydnabyddiaeth arbennig – Derry Morris
Dywedodd Jimmy wedyn, 'Diolch o galon i noddwyr y cit, Crompton Farriers, i staff y Golden Lion am eu lletygarwch ar ôl y gêm, y pwyllgor cyfan a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith a'u cefnogaeth barhaus, y cefnogwyr sy'n ein dilyn gartref ac oddi cartref, ac yn olaf, y chwaraewyr am eu hymdrech. Mae hi wedi bod yn hen dymor anodd, ond fe godwn ni eto'r flwyddyn nesaf.'

# Mwynhau yn yr awyr agored

Mae plant Ysgol Bryn Clwyd wedi treulio penwythnos yng nghanolfan addysg awyr agored Nant Bwlch yr Haearn yn Llanrwst. Dywedodd y staff a aeth gyda'r disgyblion iau fod y plant yn glod i'r ysgol, gan ymgymryd â heriau newydd fel canŵio, cerdded ceunentydd a chwblhau cwrs rhaffau uchel a llinell zip. Ymunodd ffrindiau o Ysgol Gellifor â'r plant hefyd, gan roi cyfle i bawb gydweithio a dod i adnabod ei gilydd, yn enwedig y rhai sy'n paratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd ym mis Medi.







# Ysgol Bryn Clwyd





Testun newydd y plant iau yw 'Pontydd'. Maen nhw wedi darganfod bod bwâu talach yn gryfach ac yn gallu cario mwy o bwysau oherwydd eu bod yn dosbarthu'r cywasgu.



Ac wrth wneud pontydd crog bu'n rhaid iddyn nhw basio'r prawf 500g.

Mae'r babanod wedi cael cynllun gwobr Dug Caeredin bach. Maen nhw wedi bod yn dysgu cymryd cyfrifoldeb drostyn nhw eu hunain trwy ddysgu sut i alw'r gwasanaethau brys, clymu eu careiau esgidiau eu hunain, heicio wrth gario eu heiddo eu hunain, gwneud pryd syml a glanhau ar ôl eu hunain. Roedd deg sgìl newydd i'w dysgu cyn ennill y wobr.

Enillodd  Ollie wobr am ddylunio ac addurno bisged Coron y Frenhines (y llun ar y dde). Mae ei hymgais hi rŵan yn mynd yn erbyn enillwyr o ysgolion cynradd eraill yn y gystadleuaeth Jiwbilî arbennig hon.



Treuliodd yr artist Iola Edwards brynhawn yn dysgu'r plant iau sut i wneud celf yn ei steil ei hun trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd paentiadau'r plant yn edrych yn drawiadol iawn.



# Rysáit



**Bircher muesli**

Mae hwn yn frecwast gwych, yn enwedig i'r rheini ohonoch sydd wrth eich boddau gydag uwd poeth dros y gaeaf ac eisiau rhywbeth oer i frecwast yn yr haf. Dim ond rysáit sylfaenol sydd isod ond y peth gorau am *Bircher Muesli* yw y gallwch chi ei wneud o unrhyw beth o'ch dewis chi.

Mae'n well ei baratoi y noson cynt mewn powlen a'i adael yn yr oergell wedi'i orchuddio â haenen lynu (*clingfilm*). Dylai'r canlynol roi pedwar dogn (neu ddau i'r rhai sy'n hoffi brecwast mawr). Fe allech chi wneud swp mawr a dylai bara yn yr oergell am 2–3 diwrnod.

Cymysgwch un mẁg o geirch uwd gydag un mẁg o laeth ac ychwanegwch un afal wedi'i gratio.

Eich dewis chi yw gweddill y cynhwysion yn gyfan gwbl. Gallwch ychwanegu amrywiaeth o ffrwythau sych fel rhesins, llugaeron, ceirios, bricyll, datys wedi'u torri neu ffigys. Gallech ychwanegu amrywiaeth o gnau fel cnau pecan, cnau Ffrengig, naddion almon, cnau coco neu gnau cyll wedi'u torri. Mae rhai pobl yn ychwanegu saws afal a sinamon neu roi ychydig o sudd afal yn lle ychydig o'r llaeth.

I'w wneud yn saig fegan, mae *Bircher muesli* hefyd yn wych wedi'i wneud â llaeth almon.

I'w weini, gallech chi ei wneud yn fwy moethus trwy roi iogwrt Groegaidd ar ei ben gydag aeron ffres, neu diferwch ychydig o fêl drosto.

Mae'r cyfuniadau'n ddiddiwedd felly mwynhewch ac arbrofwch!

*Ed Howarth*

# Diffibrilwyr

Mae dau ddiffibriliwr yn y pentref erbyn hyn, ac efallai fod angen eglurhad syml o'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw. Mae'r ddau wedi'u cofrestru ar gronfa ddata genedlaethol a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys. 'The Circuit' yw enw'r gronfa ddata, sef rhwydwaith cenedlaethol diffibrilwyr a bydd y gronfa ddata hon hefyd yn gwybod pryd mae'r diffibrilwyr wedi cael eu defnyddio. Bydd yn sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u gwneud yn barod i'w defnyddio eto – padiau newydd ac ati.

**Yr Ystafelloedd Coco.** Mae hwn mewn cabinet GWYRDD, sydd wedi'i gloi bob amser. Mewn achosion brys, deialwch 999 a gofynnwch am y gwasanaeth ambiwlans. Esboniwch yr amgylchiadau a'r lleoliad ac fe fydd yn gwirio ble mae'r diffib agosaf. Os bydd angen, byddan nhw'n rhoi cod y blwch i chi fel bod modd defnyddio'r diffib ar y claf.

**Cae Nant.** Mae'r blwch hwn yn FELYN ac mae ar agor 24/7, felly gall unrhyw un sy'n ddigon hyderus i'w ddefnyddio fynd ato unrhyw bryd. Ond rhaid cofio deialu 999 gan y bydd angen i weithiwr meddygol proffesiynol weld y claf rywbryd.

Cofiwch fod y ddwy uned yn hawdd i'w defnyddio ac mewn gwirionedd yn siarad â chi drwy'r broses. Bydd rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol ar gyfer defnyddio diffibriliwr yn cael ei drefnu – bydd dyddiadau a rhif cyswllt yn cael eu rhyddhau maes o law.

Bu'n rhaid defnyddio diffibriliwr yr Ystafelloedd Coco yn ddiweddar ac, fel yr eglurwyd uchod, fe'i tynnwyd oddi ar y 'Circuit'. Fel rhan o'r broses, cafodd ei archwilio ar unwaith, cafodd badiau newydd, ei wirio a'i roi ar waith eto. Mae bellach ar gael i'w ddefnyddio unwaith eto, sy'n dawelwch meddwl i bawb yn y pentref fod gennym diffib cwbl weithredol sydd wedi'i gofnodi ar gronfa ddata genedlaethol.

Rydym yn gobeithio na fydd ei angen eto; er hynny, y mae yno, ynghyd â'r un newydd yng Nghae Nant.

# Mynd am dro gydag Iolo

Ddydd Sul, 8 Mai, bûm yn lwcus iawn i fod yn rhan o griw o ddysgwyr Cymraeg a aeth ar daith natur ar gyrion Dinbych gydag Iolo Williams. Yn gyntaf roeddwn i wedi rhyfeddu at y cefn gwlad prydferth ar gyrion y dref! Mae'n rhan o'r un gyfres o deithiau cerdded â'n Llwybr Tyrnog ni. Os ewch i www.denbighshirecountryside.org.uk/community-miles, dyma'r drydedd daith yn y rhestr. A gallwch ei lawrlwytho'n hawdd i'ch ffôn neu rwy'n siŵr y gallwch gael copi papur yn y llyfrgell.

Fe wnaethon ni'r llwybr coch sy'n 3.3 milltir gyfforddus a dylai gymryd tua 1.5 i 2 awr pan nad yw Iolo Williams gyda chi! Mae'n mynd â chi drwy gaeau, ar hyd lonydd ac afonydd, heibio Gwaenynog ac yn ôl i'r dref. Pan ddes i allan ar Mount Wood ac edrych i lawr y stryd fawr tuag at Morrisons allwn i ddim credu 'mod i erioed wedi gweld y llwybr hwn o'r blaen!

Roedd y daith wedi ei threfnu gan Fenter Iaith Dinbych, elusen gofrestredig sy'n hybu ac yn annog defnyddio'r Gymraeg, a'r prif darged yw cynyddu nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg. Wel arwydd da felly oedd bod rhestr aros hir i fynd ar y daith gydag Iolo!

Roedd Iolo mor hyfryd a hawdd ei ddeall ac roedd hefyd yn hawdd mynd ato i ofyn cwestiynau iddo. Roedd wrth ei fodd wrth glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio o'i gwmpas drwy gydol y daith gerdded ac yn gyffrous i weld pa mor dda roedd defnyddio'r Gymraeg yn cynyddu yn yr ardal hon gyda dysgwyr mor frwd.

Arhosodd ddwywaith i rannu pethau â ni cyn i ni hyd yn oed fynd allan o faes parcio Caledfryn! Dim ond newydd fynd trwy'r tai uwchben swyddfeydd y cyngor yr oeddem ni, pan welson ni walch y pysgod yn hedfan! Mae'n debyg ei fod yn gwybod bod Iolo yn yr ardal! A dweud y gwir, roedd yn debygol o fod yn un o'r rhai sy'n nythu yn y Brenig eto eleni.

Mae Iolo yn angerddol dros inni beidio â chadw ein gerddi'n rhy daclus i wneud yn siŵr bod byd natur yn cael cyfle a'n bod yn cael mwy o fywyd gwyllt yn ein gerddi. Roedd yn ein hannog i adael hadau dant y llew gan fod y dryw penfelyn yn hynod o hoff ohonyn nhw a'u bod yn llawn maeth iddo. Peidiwch â thorri'ch glaswellt yn rhy aml er mwyn gadael i friallu, briallu Mair, fioledau a llygad doli flodeuo a lledaenu. Gwaredwch glychau'r gog o Sbaen a phrynwch gennin Pedr Cymreig, nid rhai o'r Iseldiroedd – maen nhw'n gweddu'n well i'r hinsawdd.



Roedd hi'n fraint cael y cyfle i gael ychydig oriau yn ei gwmni – cyfle na fyddwn i wedi ei gael oni bai fy mod i'n dysgu siarad Cymraeg. Felly os ydych chi'n ystyried dechrau dysgu neu fynd yn ôl i wella'r Gymraeg rydych chi wedi'i dysgu yn yr ysgol efallai, peidiwch ag oedi mwyach! Gallwch gael lle ar gwrs diwrnod am £5 yn unig a gall blwyddyn gyfan o ddosbarthiadau wythnosol fod cyn lleied â £45, os archebwch chi'n gynnar (yn aml cyn diwedd Gorffennaf). Mae Popeth Cymraeg yn y Ganolfan Iaith ym Mhwll y Grawys yn y dref yn rhedeg y cyrsiau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ynghyd â Choleg Cambria. Mae llawer o gyrsiau ar Zoom ar hyn o bryd felly maen nhw'n hynod o hawdd i'w gwneud ond mae rhai dosbarthiadau yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth ym mis Medi. Mae'r gymuned dysgu Cymraeg mor gyfeillgar – rwy'n eich annog i ymuno â hi.

*Catherine Howarth*



# Hanesion Hazel

Mae mis Mehefin yn nodi heuldro'r haf, pan fydd y pridd yn gynnes, y dyddiau'n hir a'r holl lysiau allan. Hefyd, dyma adeg diwedd tymor yr asbaragws, gan fod rhaid rhoi'r gorau i gasglu'r coesynnau ar ôl y diwrnod hiraf er mwyn galluogi'r planhigion i dyfu a pharatoi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae fy llysiau yn swatio o dan rwydi adar i atal y colomennod, ond yn bennaf i atal yr ieir sydd wrth eu bodd yn gwledda ar y planhigion ifanc blasus ac yn crafu'r pridd oddi tanyn nhw. Gyda'r nosweithiau hir, mae'n adeg ymlacio yn yr awyr agored a gwylio 'cymdeithas yr ieir'. Mae gen i bedwar ceiliog ar hyn o bryd. Elvis ddaeth yn gyntaf, o ganolfan achub anifeiliaid, ynghyd â 15 o ieir moel. Bu'n dad i dri bachgen (yn ogystal ag ambell ferch) y gwanwyn diwethaf. Hefyd Casanova (mae'n hoffi 'hel merched'), Kellogg's (yn debyg i'r cymeriad ar becyn grawnfwyd) a Boris sy'n ei lordio hi o gwmpas y brif ardd. Mae'n gwneud cymaint o sŵn, yng nghwmni ei dair merch sy'n ei ddilyn i bobman. Maen nhw'n dodwy eu hwyau drwy'r amser yn y stabl, gan ruthro allan gyda chlwc uchel pan fydd wy yn ymddangos, fel pe bai'n syndod bob tro!

Mae'r coed ffrwythau bellach wedi gosod eu ffrwyth ac yn tyfu'n dda. Mae'r ffrwythau bach sydd wedi'u ffrwythloni yn ffurfio felly mae'n bryd eu teneuo, ond arhoswch nes bydd y coed yn gollwng eu ffrwyth ym mis Mehefin cyn i chi dynnu gormod o ffrwythau. Dyma duedd naturiol y coed ffrwythau i ollwng rhai o'u ffrwythau anaeddfed. Gall fod yn frawychus, ond peidiwch â phoeni, weithiau mae ansawdd yn well na nifer. Mae'n ymddangos bod y 'gollyngiad' llawn pectin hwn yn digwydd pan mae digonedd o fintys yn yr ardd hefyd, felly i ddefnyddio'r ddau rwy'n gwneud jeli mintys afal, sy'n cadw'n dda ac yn hyfryd ar gig oen rhost. Mae'r potiau cartref yn lliw euraidd, yn annhebyg i'r stwff gwyrdd llachar a gewch yn yr archfarchnad, ac mae'r jeli yn wirioneddol werth ei wneud.

Yn fras fe fydd arnoch chi angen 500g o afalau anaeddfed, sypyn mawr o fintys, 150g o siwgr gronynnog (*granulated*) a 30ml o finegr gwin gwyn. Berwch yr afalau a'r mintys nes eu bod yn feddal, rhowch nhw mewn bag jeli a'u gadael i ddiferu dros nos. Peidiwch â chael eich temtio i wasgu'r bag. Ychwanegwch y siwgr at y sudd gyda finegr, cynheswch y cymysgedd nes ei fod wedi setio. I weld a yw wedi setio ai peidio, rhowch soser yn yr oergell a llond llwy de o gymysgedd arno i oeri. Os yw'n crychu pan fyddwch chi'n pwyso arno â'ch bys, mae'n barod. Arllwyswch y jeli i mewn i jariau a bydd gennych chi jeli mintys blasus am hyd at flwyddyn. Dydy hyn ddim yn digwydd yn fy nhŷ i – mae'n rhy flasus.

Mae blodau'r ysgawen gyda'u harogl melys llesmeiriol yn tyfu yn fy nghaeau felly rwy'n hel y blodau hyn i wneud siampên blodau'r ysgawen. Mae ganddo flas persawr cynnil, gall fod yn eithaf sych ac, wrth gwrs, mae'n befriog os ydych chi'n defnyddio burum siampên. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol fod y poteli'n dueddol o ffrwydro. Yn wir, un flwyddyn, fe chwythodd swp cyfan eu cyrc, gan wylltio fy mam oherwydd bod y cynnwys siwgraidd wedi tasgu ar hyd y carped a'r waliau!!!! Ac yn anffodus collwyd y cynnwys.

Chwiliwch am y rhain ym mis Mehefin — chwilod corniog yn hedfan o gwmpas ar noson gynnes. Chwilod mawr yw'r rhain ac mae eu henw'n dod o safnau mawr y gwryw sy'n debyg i gyrn carw. Pan fydd hi'n dywyll, rhowch y golau tu allan ac maen nhw'n hedfan atoch chi'n lletchwith ac yn taro'ch pen gan suo ychydig yn frawychus.

Hazel

# Beth am ddarllen llyfr?

Dwi'n disgwyl bod llawer mwy o lyfrau wedi'u darllen dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil y cyfnod clo. Wel beth am rannu llyfr yr hoffech chi ei argymell gydag eraill, trwy *Llais Llandyrnog*? Fel darllenydd, dwi wrth fy modd yn gwybod beth mae darllenwyr eraill wedi'i fwynhau ac a ydy o'r math o lyfr y byddwn i yn ei fwynhau. Dyma rai mae aelodau'r Clwb Llyfrau sy'n cyfarfod ar ddydd Mawrth yn yr Ystafelloedd Coco wedi'u mwynhau ac ambell un gen i fy hun.

***All the Light We Cannot See* gan Anthony Doerr**
Dyma un o'r llyfrau mwyaf teimladwy i mi ei ddarllen erioed ac un o'r rhai sy'n aros yn y cof ymhell ar ôl ei orffen. Enillodd Wobr Pulitzer 2015 a Medal Carnegie am ffuglen. Mae wedi'i osod yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac mae'n cynnwys merch ddall o Ffrainc a bachgen o'r Almaen; cymeriadau sydd wedi'u hysgrifennu mor dda maen nhw'n mynd â chi ar eu taith gyda nhw.

*Karen Connell*

***The Killing Room* gan Peter May**
Mae'r llyfr hwn yn rhan o gyfres a ysgrifennwyd gan Peter May a gallaf eu hargymell i gyd. Os ydych chi'n hoffi *thriller*, rhowch gynnig ar hwn.

*Wyn Wilson*

***The Tattooist of Auschwitz* gan Heather Morris**
Os ydych chi'n mwynhau ffuglen yn seiliedig ar ffaith hanesyddol, rwy'n argymell hyn yn fawr i chi. Wrth gwrs, gan ei fod wedi'i osod yn Auschwitz, gall fod yn ddarllen anodd, ond rwy'n addo diweddglo hapus ichi.

***Down Under* gan Bill Bryson**
Os oes gennych chi awydd 'teithio cadair esmwyth' a llyfr ysgafn, mae Bill Bryson yn berffaith. Mwynhewch hiwmor addfwyn a ffeithiau diddorol wrth i Bill deithio o amgylch Awstralia.

***Blasu / The Seasoning* gan Manon Steffan Ros**
Roeddwn i wedi clywed cymaint o ganmoliaeth i'r llenor yma ond fel dysgwr Cymraeg roedd y fersiwn Cymraeg, *Blasu*, ychydig yn rhy anodd i mi. Felly roeddwn wedi cyffroi i ddarganfod bod yna gyfieithiad Saesneg. Roeddwn i'n methu rhoi'r gorau i'w ddarllen! Mae ysgrifennu Manon yn ffres a'i chymeriadau mor real, maen nhw'n fy nenu i'n llwyr. Y ffocws yw bywyd y prif gymeriad a'i stori yn cael ei hadrodd trwy holl bobl ei bywyd. Mae bwyd yn thema drwy'r nofel – sut mae bwyd ein cysylltu ag atgofion a pha fath o deimladau y mae'n eu hennyn.

*Catherine Howarth*

Os hoffech chi argymell llyfr, anfonwch e-bost at llandyrnognews@gmail.com.

J & G
TYRE SERVICES

Car - Truck - Farm Tyre Specialists
Batteries & Exhausts
Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ
01745 817676
07775 717602

# Sioe flodau a chynnyrch Llandyrnog




**FLODAU A CHYNNYRCH**

**LLANDYRNOG**

**FLOWER AND PRODUCE**




| Cymraeg | English |
|---|---|
| **Dydd Llun, Awst 29 2022**<br>**2 y.p. Neuadd y Pentref** | **Monday, August 29 2022**<br>**2 p.m. Village Hall** |
| Ni chodir tâl am y rhaglen nac am fynediad i'r sioe, ond derbynnir yn ddiolchgar gyfraniadau tuag at gostau cynnal y sioe | No charge for schedule or entry to show; contributions towards the cost of holding the event gratefully received |


**DBP** Denbigh Building Plastics

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


Bydd y sioe yn ei hôl eleni, am y tro cyntaf ers 2019. Bydd y rhaglenni yn cael eu dosbarthu fis nesaf. Yn y cyfamser, dyma'r cystadlaethau crefft, felly dechreuwch wau/gwnïo/creu…

- Eitem wedi'i gwau â llaw
- Cerdyn cyfarch (A5 ar y mwyaf) – unrhyw destun, unrhyw ddeunydd
- Tegan meddal wedi'i wneud â llaw
- Eitem wedi'i brodio â llaw
- Eitem o emwaith wedi'i gwneud â llaw
- Eitem o ffelt wedi'i gwneud â llaw
- Eitem o waith crosio (unrhyw gyfrwng)
- Eitem o glytwaith
- Eitem o waith appliqué
- Eitem wedi'i gwneud â llaw sy'n addas ar gyfer anrheg Nadolig (unrhyw gyfrwng)
- Rhywbeth newydd o rywbeth hen (unrhyw gyfrwng)
- Gwisg wedi'i gwau â llaw ar gyfer dol
- Eitem i gario teclyn neu ddyfais, unrhyw gyfrwng
- Eitem o gelf neu grefft nad yw yn y rhaglen
- Eitem o bren wedi'i thurnio
- Eitem fach wedi'i gwneud o bren (uchafswm o ran lled neu uchder 12")
- Eitem o bren (dim mwy na 36" o ran lled neu uchder)

Testunau ar gyfer y cystadlaethau ffotograffiaeth:
- Daear
- Awyr
- Tân
- Dŵr

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Mewn Morris Mil ar draws Ewrop

Beth wnewch chi pan fydd easyJet yn canslo'ch awyren adref? Fe benderfynon ni gael ychydig ddyddiau o wyliau yn ein tŷ yn ne'r Eidal ac, yn gynnar fore dydd Mawrth, 29 Mawrth, aethon ni ar awyren o Fanceinion i Napoli. Llogi car a theithio'r can milltir i'r dwyrain i bentref mynyddig Morrone del Sannio, gan gyrraedd yn gynnar yn y prynhawn, a setlo i mewn am ddeg diwrnod hamddenol.

Aeth popeth yn iawn tan y bore dydd Mawrth canlynol pan gyrhaeddodd neges destun yn dweud wrthym fod easyJet wedi canslo ein hawyren yn ôl nos Iau oherwydd 'diffyg staff oherwydd Covid'. Roedd cyfleoedd eraill i hedfan gyda chwmnïau eraill yn edrych yn amheus, yn enwedig gan nad oedd sicrwydd y byddai'r rheini yn cael eu canslo hefyd. Felly pa ddewis oedd gennym ni?

Rydyn ni'n gyrru yn hytrach na hedfan yn aml, ond yr unig gar yn y garej oedd y Morris Minor o'r flwyddyn 1963! Roedd yn rhaid i ni fynd yn ôl oherwydd ymrwymiadau gwaith, felly prynhawn dydd Mawrth, gyrrodd Rona y Morris i Napoli, gyda fi yn y car roedden ni wedi'i logi fel yr unig yrrwr ar yr yswiriant. Dyna'n dysgu ni i beidio â thrio arbed arian yn y dyfodol! Aros dros nos yn Casserta, wedyn cychwyn am 6am i Genefa, drwy'r Alpau a thwnnel Mont Blanc. Wrth agosáu at Aosta wele arwydd wedi ei oleuo yn nodi bod y twnnel ar gau tan 6am ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Doedden ni ddim yn mynd i gyrraedd ein gwesty roedden ni wedi talu amdano!

Yn ffodus, daethon ni o hyd i westy yn Aosta a chychwyn am 6am eto fore trannoeth, gan groesi'n bysedd nad oedd ciw enfawr yn y twnnel. Yn ffodus, aethon ni'n syth drwodd ond ar ochr Ffrainc roedd y tywydd yn ofnadwy – yn dywyll ac yn oer a chyfuniad o law ac eirlaw. Yn wyntog, hefyd! Parhaodd y tywydd garw ar draws y rhan fwyaf o Ffrainc ond daliodd y car bach i fynd, gan deithio ar gyflymder o 60mya cyson.

*Ian Glass*


GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364

Blue Hand Mowers
Repair and servicing of all garden machinery:
Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws Hedge cutters
Strimmers Disc cutters
Quad bikes Leaf blowers
Hand tools
Collection and delivery service available
Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462

# Gair gan yr offeiriad

Mae mis Mehefin yn adeg brysur iawn i nifer o bobl. Yng nghalendr yr eglwys rydyn ni'n dechrau'r mis gyda gŵyl y Pentecost. Adeg y Pentecost esgynnodd Iesu ac anfonodd Duw Dad yr Ysbryd Glân er mwyn inni fyw gyda phresenoldeb Duw yn y byd.

Rydyn ni hefyd yn dechrau mis Mehefin gyda chanmlwyddiant Eisteddfod yr Urdd yma yn Ninbych. Yna wrth gwrs mae Jiwbilî'r Frenhines hefyd. Mae llawer ohonom yn mwynhau gwyliau, cyngherddau, mynd i'r theatr, cyfarfod ag eraill mewn sawl ffordd a'r cyfan oherwydd ein bod ni'n gallu gwneud hyn, ar ôl bod yn rhyw fath o aeafgysgu am fwy na dwy flynedd. Y gwersi gwerthfawr rydyn ni wedi'u dysgu yw faint o'n bywyd roedden ni'n arfer ei gymryd yn ganiataol.

Rydyn ni hefyd wedi dysgu rhywbeth newydd am werth cysylltu â'n gilydd wyneb yn wyneb. Mae llawer o bobl wedi bod yn ceisio cynnal busnes trwy sgriniau cyfrifiaduron ac nawr mae'n fwy o economi gymysg. Mae'r datgysylltiad rhwng sgwrs go iawn gyda rhywun wyneb yn wyneb a syllu arnyn nhw mewn blwch ar sgrin hyd yn oed yn fwy amlwg. Er bod hyn i gyd yn wir i lawer, mae unigrwydd yn realiti hefyd. Mae rhai pobl yn unig ac yn methu uniaethu â llawer o'r pethau hyn. Rwy'n gweddïo ar Dduw, os ydych chi'n adnabod rhywun a allai fod yn byw ar ei ben ei hun y gallwch chi wneud rhywbeth yn ei gylch. Hefyd mae realiti tlodi yn bod, sydd bellach yn drychinebus i lawer. Nid dim ond pobl sy'n methu dod o hyd i waith, mae pobl mewn gwaith yn cael trafferth bwydo eu teuluoedd yn wynebu'r cynnydd enfawr mewn costau byw.

Mae'r rhyfel yn yr Wcráin yn dal i fod yn realiti dyddiol wrth i mi ysgrifennu hwn yn nhrydedd wythnos mis Mai. Mae rhai pobl wirioneddol garedig wedi bod yn gweithio'n galed i groesawu a gofalu am bobl sy'n ffoi rhag rhyfel yn eu mamwlad ac mae'n galonogol clywed hanes gweithredoedd o gariad o'r fath a chwrdd â'r bobl yr ydym yn eu croesawu yn ein plith.

Thema'r cyfan sydd wedi'i drafod yw cymuned. Eisteddfod yr Urdd wrth gwrs yn gymuned Gymreig dda. Y jiwbilî platinwm yn ein cysylltu â chymaint o bobl wrth i ddathlu pennaeth y frenhiniaeth dynnu sylw at Ynysoedd Prydain hyn o bob math o gymunedau a diwylliannau o bob cwr o'r byd. Dychwelyd at gymuned ofalgar heb gyfyngiadau. Yr effeithiau eang ar ein cymunedau a welir o ganlyniad i gynnydd mewn prisiau o gyfrannau afreal.

Yn anad dim, yr enghraifft agoriadol yw'r enghraifft berffaith o gymuned. Tad, Mab ac Ysbryd Glân – gyda'i gilydd mae'r tri gwirionedd hyn gan Dduw yn dangos perffeithrwydd cymuned.

Rydyn ni'n cael ein gwahodd i mewn i fywyd Duw yng ngeiriau'r Beibl. Wrth addoli gyda'n gilydd ac wrth weddïo gyda'n gilydd ac ar ein pennau ein hunain. Yr holl adegau hyn a llawer mwy gallwn deimlo cariad Duw wrth inni ymateb i gymuned Dduw.

Boed i'ch mis Mehefin fod yn un da. Boed i chi fod yn fendith i'r rhai o'ch cwmpas a bydded i chi werthfawrogi'r llu o bethau rydyn ni i gyd yn eu cymryd yn ganiataol. Os ydych chi'n unig, neu os ydych chi'n cael trafferthion ariannol ac o dan straen fawr, peidiwch â dioddef yn dawel, estynnwch allan. Mewn cymuned, rydyn ni yma i'n gilydd.

**Martin Pritchard**
**Offeiriad Ardal Genhadu Dinbych**

## Oedfan ym mis Mehefin

**Llandyrnog – 11.15am**

| | |
|---|---|
| 5 Mehefin | Boreol weddi |
| 12 Mehefin | Boreol weddi |
| 19 Mehefin | Cymun bendigaid |
| 26 Mehefin | Cymun bendigaid |

**Ni fydd gwasanaethau yn Llangwyfan yn ystod y mis**

**Llan Llanast** 12 Mehefin am 3.30pm

# Tuesday Club

Yng nghyfarfod mis Mai, Sian Ellis, Arweinydd tîm pobl hŷn Grŵp Cynefin oedd ein siaradwraig wadd, Daeth i sôn am Awel y Dyffryn, Dinbych, cyfleuster gofal ychwanegol yn y dref. Mae cysylltiad agos iawn â'r gwasanaeth gofal ychwanegol hwn â Llandyrnog, gan mai Bryn Davies, Bryn Ffolt oedd y rheolwr project a Stephanie Jones, merch Mike Jones, Nant Glyd oedd y dylunydd mewnol. Hefyd mae rhai o gyn-drigolion y pentref bellach yn byw yno.

Mae Awel y Dyffryn, cynllun £12m, yn cynnig cartrefi o ansawdd uchel mewn cymuned gyfeillgar a chlos ar gyfer pobl hyn sydd eisiau dal i fwynhau byw'n annibynnol. Mae 66 o fflatiau yno gyda gofal a chefnogaeth wrth law 24 awr y dydd. Rhoddir blaenoriaeth i drigolion Sir Ddinbych wrth osod y fflatiau.

Prif nodweddion y lle yw drws ffrynt eu hunain i bob fflat a chegin gyflawn, ystafell molchi, llofft a lolfa, gwasanaeth larwm *Careline* a gwasanaeth cynnal a chadw 24 awr y dydd. Mae ganddo adnoddau hwylus – cawodydd yr un lefel â'r llawr, lifftiau a storfa sgwteri, ardaloedd cymunedol – mae ceisio atal unigrwydd yn elfen bwysig iawn yno, stafell fwyta – mae pryd tri chwrs ar gael bob dydd, lle i olchi dillad a lle i drin gwallt, lle i ymwelwyr aros nos, lle parcio, cyfleusterau therapi a gerddi hardd. Mae'r trigolion yn cael cadw anifeiliaid anwes hefyd.

Diolchwyd i Sian am ei chyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth ac am roi o'i hamser i ddod i'r clwb.

Cafwyd lluniaeth ysgafn a thynnwyd y raffl. Cinio canol haf y Clwb fydd y digwyddiad nesa, a hynny ar 15 Mehefin.




**Wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, cofiwch roi cyfraniad yn y bocs casglu, os gwelwch yn dda, neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthwr.**

## Bore coffi

cymorth cristnogol

Roedd y bore coffi ar gyfer
Cymorth Cristnogol, fore Sadwrn 21 Mai yn hynod lwyddiannus – codwyd y swm aruthrol o £613.10. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd, a gefnogodd ac a helpodd i drefnu'r digwyddiad. Ym mha bentre arall fyddech chi'n gallu codi dros £600 mewn 90 munud?!

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

# Teyrnged i'r Parch. T. L. Williams

Bu farw'r Parch T L Williams, a fu'n weinidog ffyddlon Capel y Dyffryn am un mlynedd ar hugain hyd ei ymddeoliad yn 1995. Wedi hynny, symudodd TL a Jen i Bwllglas. Cafodd angladd parchus yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas, lle cafwyd teyrngedau twymgalon gan ei frawd Dafydd a oedd yn gyfreithiwr yng Nghaerfyrddin, a'r Parch. John Owen, Rhuthun. Teithiodd y Parch. Evan Morgan o Gaerdydd i fynegi ei ddiolchgarwch am flynyddoedd o waith caled i Gymorth Cristnogol.

Wedi hanner ymddeol, mwynhaodd TL weinidogaeth mewn eglwysi yn ardal Corwen yn rhan amser a gwella ei sgiliau ar y cwrs golff. Roedd John Owen yn meddwl ei fod wedi dewis Pwllglas fel man ymddeol oherwydd bod yna gwrs golff yn y pentref. Adroddodd Dafydd Williams ei hanes yn chwarae mewn clwb golff yn Ne Cymru lle roedd llyn bychan ar ochor y cae. Ar ôl taro'r bel roedd TL yn hapus iawn gyda'i ymdrech, ond dywedodd ei bartner fod y bêl wedi suddo yn y llyn. 'Glywaist ti mo sblash – mae'r dystiolaeth yn yr awyr. Edrycha ar yr hwyaid yna yn hedfan i ffwrdd!'

Byddai'n mwynhau pob math o chwaraeon ac wrth ei fodd yn newid sianeli Sky Sport i gadw i fyny a'r sgoriau diweddaraf.

Clywsom hefyd am ei hoffter o gathod a'r ymweliadau cyson â'r milfeddyg os oedd yn meddwl bod rhyw anhwylder ar y gath. Do, mi fanteisiodd milfeddygon Rhuthun yn fawr o sawl diagnosis.

Byddai TL wedi bod wrth ei fodd yn clywed y storïau amdano. Roedd yn berson hwyliog a hapus a phob amser yn mwynhau jôc gyda'r ifanc.

Oes, mae gan aelodau Capel y Dyffryn atgofion melys iawn am flynyddoedd o weinidogaethu hapus iawn gan TL.

*Rod Williams*



# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 17 Mai 2022 ac fe'i dilynwyd gan y cyfarfod misol arferol. Trafodwyd y materion canlynol:
Mae'r Cynghorwyr A. Rowley Williams a P. Gore Rees wedi penderfynu peidio â chynnig eu henwau i'w hail-ethol a diolchwyd iddyn nhw am eu cyfraniad dros y blynyddoedd.
Croesawyd y Cynghorydd Emyr Morris fel aelod newydd. Gan fod 11 sedd ar y cyngor, penderfynwyd cychwyn ar y broses o gyfethol aelod ar gyfer y sedd wag cyn gynted ag sy'n ymarferol. Bydd hysbysiadau yn gwahodd enwebiadau yn cael eu rhoi maes o law ar hysbysfyrddau lleol ac ar-lein yn unol â'r drefn.
Ethol swyddogion:
Cadeirydd – R. Griffith
Is-gadeirydd – G. Butler
Pennwyd aelodau yn gynrychiolwyr i amrywiol gyrff lleol ac i'r is-bwyllgor cyllid.
Cytunwyd i gyhoeddi rhestr o gynghorwyr ar y wefan ac yn *Llais Llandyrnog*.

Yn y cyfarfod arferol a ddilynodd, cafwyd gwybod am y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi prynu bynting a baneri i groesawu ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd i Landyrnog. Mae'r rhai fu'n ymwneud â chreu logo'r Urdd ar ochr bryn Pen y Cloddiau i'w llongyfarch gan fod hwn yn waith celf trawiadol a gymerodd oriau lawer i'w gwblhau. Mae eisoes wedi cael sylw yn y wasg ac ar y teledu ac yn amlygu'r ardal mewn ffordd gadarnhaol.
- Mae'r Cyngor yn aros am arweiniad gan bartneriaid allanol ynglŷn ag arolwg anghenion cymunedol ar gyfer y pentref.
- Dan 'Adroddiadau Aelodau', dywedodd y Cynghorydd Butler fod Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Rhuthun wedi cwblhau'r caffi/siop newydd yn yr ysbyty ac yn aros am ganiatâd y Bwrdd Iechyd i groesawu ymwelwyr. Mae'r holl waith adeiladu wedi'i orffen, ac mae'r feddygfa (a oedd gynt yn y Clinig ar Mount Street, Rhuthun) bellach o fewn adeilad yr ysbyty. Nid yw'r gwaith tirlunio allanol wedi'i gwblhau eto ond y gobaith yw y bydd Cymdeithas y Cyfeillion yn mabwysiadu'r gwelyau blodau a'r meinciau arfaethedig.

**Cynghorwyr Cymuned Llandyrnog ers 5 Mai 2022**

GRIFFITH, Ruth: Glanrafon, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4HB (Cadeirydd)

BUTLER, Gwen; The Coach House, Fron Yw, Llangwyfan, Dinbych, LL16 4LU (Is-gadeirydd)

EVANS, Arwyn; Ysgubor Efa, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4LT

EVANS, Gwilym Charles; Glennydd, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4HB

MCGUIRE, John; Bodlondeb, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4HE

MORRIS, Emyr; Penisa'r Waen, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4HL

PARRY, Merfyn; Tŷ'r Hwylfa, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4HG

THOMAS, Aled Vaughan; The Old Stables, Plas Bennett, Dinbych, LL16 4EU

WILLIAMS, Elaine Frances; 2 Tan-Y-Ffordd Cottages, Llangwyfan, Dinbych, LL16 4LU

WRIGHT, Hazel Christine; Lodge Farm, Llangynhafal, Dinbych, LL16 4LP

Mae Cyngor Cymuned yn bwriadu cyfethol cynghorydd cymuned newydd. Os oes gennych chi ddiddordeb yn hyn, edrychwch ar yr hysbysebion ffurfiol sydd i'w gweld yn y siop, ar hysbysfyrddau ac ar wefan y Cyngor Cymuned – www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk. Rhaid anfon enwebiadau erbyn dydd Gwener, 17 Mehefin 2022 at R.B. Davies, Clerc y Cyngor Cymuned (rbrynd1@gmail.com).